## Yr amserlen ar gyfer ystyried Mesur arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) 200-

Ar 5 Tachwedd 2008, gosodwyd Mesur arfaethedig Aelod, '*Mesur Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) 200-*', gerbron y Cynulliad.

Ar 26 Tachwedd 2008, penderfynodd y Cynulliad sefydlu pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 21.1, i'w adnabod fel Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, i ystyried cynigion deddfwriaethol a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Busnes.

Ar 2 Rhagfyr 2008, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac i baratoi adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae'r Pwyllgor Busnes wedi pennu amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac wedi cytuno y dylai'r Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad 13 wythnos eistedd o ddyddiad ei gyfarfod cyntaf.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**
**Rhagfyr 2008**